



At: Penaethiaid - pob ysgol a lleoliad

16 Rhagfyr 2021

Annwyl Bennaeth

Rydw i am ddiolch i chi am eich gwaith caled a'ch ymrwymiad parhaus drwy gydol yr hyn rwy'n gwybod sydd wedi bod yn dymor arbennig o heriol.

Ein blaenoriaeth ni oll dal i fod yw lleihau'r tarfu i addysg a sicrhau, lle bo hynny'n bosibl, bod dysgwyr yn parhau i dderbyn dysgu wyneb yn wyneb, yn ogystal â gwarchod staff a dysgwyr ysgolion.

Rydym yn gwybod y bu tarfu yn ystod y tymor ysgol hwn oherwydd absenoldeb staff sydd wedi golygu bod rhai ysgolion wedi gorfod gwneud y penderfyniad anodd i symud rhai dosbarthiadau/grwpiau blwyddyn i ddysgu o bell am gyfnodau byr. Fel cydnabyddiaeth o hyn, yn ogystal â'r lefelau cyfredol o ansicrwydd ynghylch effaith Omicron, rwyf am roi cymaint o eglurder ag y gallaf i ysgolion yn awr i'ch galluogi i gynllunio a pharatoi ar gyfer dychwelyd i'r ysgol ym mis Ionawr.

Rwy'n darparu dau ddiwrnod cynllunio i bob ysgol ar ddechrau tymor newydd y gwanwyn - bydd hyn yn caniatáu amser i chi asesu capasiti staffio a rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i gefnogi dychweliad dysgwyr.

Rwy'n ymwybodol hefyd y gall yr hyn rydyn ni'n ei ddysgu dros yr wythnosau nesaf am Omicron alw am ymyriadau ar gyfer y lefelau risg uwch fel y nodir yn ein Fframwaith Penderfyniadau Lleol. Felly fel dull rhagofalus, byddai'n ddoeth ichi gynllunio eich camau lliniaru ar gyfer y dychweliad ar sail y lefel risg 'uchel iawn'. Fel rhan o'r paratoad hwn, rwy'n cyflwyno Hysbysiad Deddf y Coronafeirws 2020 i ganiatáu i ysgolion amrywio amseroedd cychwyn a gorffen o ddechrau'r tymor newydd fel cam ychwanegol pe bai ysgolion yn penderfynu bod hyn yn briodol fel rhan o'u proses asesu risg.

Bydd y diwrnodau cynllunio hefyd yn caniatáu i arweinwyr ysgolion uwchradd gynllunio er mwyn i ddysgwyr sefyll eu harholiadau ym mis Ionawr yn ddiogel. Rwy'n atodi manylion pellach am becyn ychwanegol o gefnogaeth i ddysgwyr y byddaf yn cyhoeddi heddiw.

Defnyddiwch y diwrnodau cynllunio hefyd os gwelwch yn dda er mwyn sicrhau bod gennych gynlluniau cadarn ar waith i symud i ddysgu o bell. Gallai hyn fod ar gyfer dosbarthiadau/grwpiau blwyddyn unigol neu o bosib ar gyfer yr ysgol gyfan, gan ddibynnu ar y pwysau ar eich lefelau staffio.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dylai ysgolion hefyd ailedrych ar eu cynlluniau wrth gefn i sicrhau bod blynyddoedd arholiad yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer darpariaeth ar y safle pe bai angen cyfyngu ar ddysgu wyneb yn wyneb ar unrhyw adeg. Wrth ailedrych ar eich cynlluniau wrth gefn, dylech hefyd ystyried pa drefniadau y gallai fod angen bod ar waith ar gyfer dysgwyr bregus a phlant gweithwyr hanfodol yn ystod unrhyw gyfnodau o darfu. Mae canllawiau pellach wedi eu hatodi i'ch cefnogi gyda'ch diwrnodau cynllunio.

Os bydd unrhyw ddiweddariadau pellach dros gyfnod y gwyliau byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn rhannu'r rhain gyda chi cyn eich diwrnodau cynllunio. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'ch Cyfarwyddwyr Addysg ac eich Undebau Llafur dros yr wythnosau nesaf.

Rwy'n parhau â'n cyngor ar orchuddion wyneb i'r tymor newydd. Yn ogystal, mae'n bwysig iawn bod staff a dysgwyr yn parhau i ddefnyddio Profion Llif Ochrol yn rheolaidd yn ystod y tymor fel y gallwn ddod o hyd ac ynysu'r rhai a allai fod yn heintus i eraill yn ddiafwr. Mae'n arbennig o bwysig, nawr ac yn y tymor newydd, wrth i ni gasglu tystiolaeth a meithrin gwell dealltwriaeth o'r amrywiolyn Omicron. Ein disgwyliad cryf i'r dyfodol yw y dylai'r holl staff a dysgwyr oed uwchradd neu'n hŷn brofi **deirgwaith** yr wythnos gan ddefnyddio Profion Llif Ochrol (ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener) yn yr wythnos cyn dychwelyd i'r ysgol ac yna parhau i brofi'n rheolaidd **dair gwaith** yr wythnos ar ôl dechrau'r tymor ym mis Ionawr. Byddwn yn cynyddu ein hymdrechion cyfathrebu i atgoffa staff a dysgwyr o bwysigrwydd profi ar y sail hon. Mae ein trefniadau ar gyfer staff mewn darpariaeth addysgol arbennig yn aros yn eu lle. Fodd bynnag, bydd y dull 'profi i ddiogelu' yn parhau i gael ei ystyried ochr yn ochr â staff gofal cymdeithasol a lle bo'n berthnasol bydd unrhyw newidiadau ar gyfer staff gofal cymdeithasol yn cael eu hadlewyrchu ar gyfer staff mewn ysgolion arbennig.


Mae dos atgyfnerthu o'r brechlyn ar gyfer pob aelod o staff a phlant a phobl ifanc cymwys yn parhau i fod yn rhan allweddol i frwydro yn erbyn niwed firws, ynghyd â'r ymyriadau anfferyllol a'r trefniadau profi. Dylai pawb flaenoriaethu cael eu brechlyn atgyfnerthu pan fyddant yn cael ei gynnig a gofynnaf i ysgolion ganiatáu ar gyfer hynny fel rhan o'u cynlluniau.

Bydd yn parhau i fod yn bwysig nad oes unrhyw un â symptomau COVID-19 yn mynychu'r ysgol ar ddechrau'r tymor a dylent archebu prawf PCR.

Mae hon yn sefyllfa sy'n esblygu'n gyflym ac rydym yn parhau i fonitro'r data diweddaraf, efallai y bydd angen cyhoeddi diweddariadau pellach os bydd unrhyw ddatblygiadau sylweddol yn ystod cyfnod gwyliau'r Nadolig. Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn gweithio'n agos gyda'ch Cyfarwyddwyr Addysg i ystyried y ffordd orau o roi'r amser sydd ei angen arnoch i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i'r camau lliniaru ar ddechrau'r tymor.

Hoffwn gloi trwy ailadrodd fy niolch i chi am eich gwaith caled aruthrol yn ystod cyfnod eithriadol o heriol. Gobeithio y cewch chi a phob aelod o staff yr ysgol saib haeddiannol dros wyliau y Nadolig.

Diolch o galon.



Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language